

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

BIDIAU REFENIW PARHAOL 2022/23

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
ADDYSG			
Bid 1	Cludiant Tacsis a Threnau Ysgolion	<p>Cytundebau diweddaraf ar sail nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2022-23, yn dangos gwariant o £3,044,427 yn erbyn cyllideb o £2,554,360 (yn cynnwys cyfraniad o £100k o'r Grant Gwella Addysg EIG tuag at gostau tacsis Canolfannau Iaith) yn gadael diffyg o £490,067.</p> <p>Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â - - diffyg o £145k yn bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2021-22. (cyflwynwyd bid am £290,440 a derbyniwyd £145,440 parhaol a £145k un tro), - yn defnyddio arbedion o (£65,980) sydd wedi deillio wrth ail tendro cytundebau Ardal Arfon yn Ebrill 2021.</p>	150,000
Bid 2	Swyddog Addysg Uwchradd	<p>Cabinet 28 Ebrill 2020 wedi cymeradwyo cyllid am gyfnod o ddwy flynedd i benodi swyddog er mwyn targedu, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd.</p> <p>Cais i ariannu'r swydd yn barhaol, er sicrhau parhad yng nghynhwysedd ychwanegol yr Adran i gefnogi'r sector uwchradd mewn cyfnod o bandemig, yn ogystal â chefnogi'r ysgolion rheiny sydd yn peri pryder, ac angen her a chefnogaeth ychwanegol ar eu taith tuag at hunan-wella.</p>	89,530

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 3	Tocyn Teithio Ôl-16	<p>Codir ffi o £300 ar bobl ifanc 16 + oed i deithio i'w sefydliadau addysg boed yn yr ysgol neu goleg. Mae'r ffi'r un fath i bawb dim ots os ydynt yn teithio am 1 diwrnod neu 5 diwrnod. Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod yn rhanbarth y Gogledd sy'n codi ffi.</p> <p>Gwaith ymchwil yn dangos bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar bobl ifanc 16-25 oed o ran eu lles ac o ran cyfraddau NEETs. Roedd y gyfradd NEETs ar ei huchaf y llynedd yn ystod y pandemig (er yn is eleni, heb gyrraedd y lefel cyn y pandemig eto). Credir fod cost y Tocyn Teithio Ôl-16 yn rhwystr i rai pobl ifanc allu manteisio ar addysg bellach.</p> <p>Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl wedi adnabod llesiant yr oedran 16 + fel blaenoriaeth drawsadrannol yn sgil y pandemig, sy'n un o flaenoriaethau'r Adran Addysg yng Nghynllun y Cyngor.</p> <p>Byddai dileu'r ffi yn sicrhau mynediad di-rwystr i addysg bellach. Ac yn sicrhau cysondeb yn y cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd fanteisio ar addysg bellach yn rhad ac am ddim yn yr un modd a'u cyfoedion mewn siroedd eraill.</p>	218,070
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD			
Bid 4	Cynllun Awtistiaeth (ar y cyd gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	<p>Comisiynwyd mewnbwn arbenigol i ddatblygu cynllun i ymateb i geisiadau am asesiadau a chefnogaeth yn ymwneud ag awtistiaeth yn dilyn adroddiad beirniadol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae cynllun drafft wedi ei ddatblygu, caiff ei gyflwyno i'r Cabinet cyn hir. Hefyd, ym mis Medi 2021 daeth Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth i rym. Datblygwyd y cynllun ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p>Byddai'r bid yn ariannu swydd Cydlynedd Awtistiaeth a 2 swydd Gwaith Cymdeithasol ar gost blyneddol o £144k. Byddai'r Cyngor yn cyfrannu tuag at draean o'r gost.</p>	48,000
Bid 5	Cynllun Pan Fyddai'n Barod	<p>Ers 2016 mae cynnig trefniant aros yn eu lleoliad maeth i bobl ifanc sy'n troi 18 oed yn ofyniad statudol, ond ni chafwyd arian ychwanegol gan y Llywodraeth i'w weithredu. Ar gyfer 2 flynedd cyntaf y cynllun trosglwyddwyd arian o gyllideb maethu mewnol. Nid yw trosglwyddiad pellach yn bosib er mwyn rheoli'r gyllideb.</p> <p>Mae rhwng 5 a 8 person ifanc sydd mewn lleoliad maeth yn troi 18 yn flynyddol. Nid yw pob un yn dewis aros ymlaen, gyda rhwng 60% a 80% sy'n gymwys yn gwneud hynny. Eleni mae 11 yn rhan o'r cynllun hyd at ddiwedd Medi. Bydd 3 o'r trefniadau yn dod i ben cyn diwedd mis Mawrth 2022, a rhagwelir y bydd 4 cynllun newydd.</p>	50,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 6	Tâl am Sgiliau i Ofalwyr Maeth	<p>Telir Lwfans Maethu i ofalwyr maeth ar gyfer pob plentyn yn eu gofal. Nid yw'r gofalwyr maeth fel arall yn derbyn cyflog, ond gellir derbyn ffi fel cydnabyddiaeth am eu rôl yn ddibynol ar ddatblygiad personol, hyfforddiant a pharodrwydd i gwblhau cymhwyster gofal plant.</p> <p>Mae nifer y gofalwyr maeth yn weddol sefydlog a nod yr awdurdod lleol yw sicrhau nifer digonol o ofalwyr maeth er mwyn ceisio osgoi lleoli gydag asiantaethau preifat.</p> <p>Erbyn hyn, mae mwy o ofalwyr maeth sy'n gymwys am daliad ffi na'r gyllideb sydd ar gael. Cynyddwyd cyllideb talu lwfansau maeth y llynedd, ond nid oedd cynnydd ar gyfer yr elfen talu ffi i ofalwyr maeth.</p>	65,000
Bid 7	Tim Diogelu ac Ansawdd	Yn sgil ymateb i gynnydd yn y galw, addaswyd sefydliad ar gyfer swydd Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn o 0.7 FTE i 1 FTE sydd wedi creu diffyg yn y gyllideb o £16k.	16,000
Bid 8	Gwasanaeth Cefnogol Derwen	<p>Mae'r galw am wasanaeth gan Dîm Cefnogol Derwen wedi cynyddu yn sylweddol a natur anghenion yr achosion yn fwy dwys. Oherwydd natur dwys yr anghenion, gall sefyllfa cartref fod dan straen gan arwain at becynnau argyfwng am gyfnod o amser i leddfu'r sefyllfa. Law yn llaw a hyn, mae nifer pecynnau gofal dwys ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Iechyd i blant gwael hefyd wedi cynyddu, mae rhain yn becynnau cymhleth iawn.</p> <p>Gyda mwy o blant yn cael diagnosis yn fuan yn eu bywydau ni ellir gweld y bydd y galw am wasanaethau yn lleihau.</p>	100,000
Bid 9	Tim ôl-16 Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol	<p>Dros y 5 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer achosion sy'n agored i'r timau (cynnydd o 441 i 600), ond ni welwyd cynnydd yn y nifer o Weithwyr Cymdeithasol. Sydd wedi arwain at lwyth gwaith sylweddol uwch i'r Gweithwyr Cymdeithasol.</p> <p>Dros y 12/18 mis diwethaf mae'r gwasanaeth wedi profi heriau cynyddol i gynnal a chadw gweithlu Gwaith Cymdeithasol cymwysedig.</p> <p>O ganlyniad i fethu â recriwtio, penderfynwyd ychwanegu at staff y timau drwy ychwanegu swyddi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol di-gymhwyster, ail-ddisgrifio swyddi'r Uwch Ymarferwyr dros-dro a symud rhai Gweithwyr Cymdeithasol profiadol o rannau eraill o'r Gwasanaeth am gyfnod penodol.</p>	200,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 10	Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Plant Anabl	<p>Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer teuluoedd sy'n dewis Taliadau Uniongyrchol i drefnu pecynnau gofal eu hunain. Law yn llaw a hynny, mae natur a chymhlethdod anghenion bellach yn fwy dwys sy'n golygu bod angen am becynnau gofal mwy. Rhwng y ddau ffactor yma mae gwariant yr Adran ar Daliadau Uniongyrchol i blant anabl yn debygol o fod oddeutu £238k yn erbyn cyllideb o £81k.</p> <p>Mae cost cyfartalog achos wedi codi o £3,740 yn 2018-19 i £8,810 yn 2021-22. Gyda chost cyfartalog achos pecyn trwm bellach yn £20k.</p>	102,500
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Bid 11	Oed Trosglwyddo Anabledd Dysgu	Bydd nifer o unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn troi yn 18 oed ac yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2022/23. Mae 9 o'r unigolion yma wedi eu hadnabod yn becynnau gofal lle bydd costau sylweddol ychwanegol. Yn ogystal, mae 2 unigolyn arall wedi troi yn 18 yn ystod 2021/22 lle mae angen bidio am effaith flwyddyn lawn eu pecynnau gofal.	223,050
Bid 12	Llety Cefnogol – Maes Anabledd Dysgu	<p>Mae anghenion unigolion mae'r Tîm yn eu cefnogi yn mynd yn fwy cymhleth. A'r niferoedd sydd yn byw mewn tŷ a chefnogaeth yn cynyddu. Mae prinder o lety addas, ond mae prosiect lletya yn gweithio ar gwrdd â'r angen ar draws y Sîr.</p> <p>Mae'r opsiwn o fyw mewn tŷ gyda chefnogaeth yn well opsiwn o ran cyfarch anghenion nifer fawr o unigolion a chael gwerth gorau am arian. Mewn ambell achos, bydd angen llety fwy arbenigol yn y gymuned. Fel rhan o'r bid yma, mae nifer o resymau pam fod yr unigolion dan sylw angen tŷ a chefnogaeth/wedi symud i dŷ a chefnogaeth/llety arbenigol :</p> <ul style="list-style-type: none"> * Newid mewn angen sylweddol (1) * Unigolion yn dychwelyd adref o garchar neu ysbyty arbenigol (3). * Unigolion yn byw gartref gyda'i rhieni/gofalwr, a'r sefyllfa yn fregus iawn, neu wedi torri lawr (2) 	300,000
Bid 13	Staffio Cartrefi Preswyl Anabledd Dysgu	<p>Mae strwythur staffio Cartrefi Preswyl Anableddau Dysgu Frondeg (Caernarfon) a Tan Y Marian (Pwllheli) wedi bod yn annigonol i gwrdd ag anghenion y preswylwyr wrth i anghenion y preswylwyr newid a dwysau.</p> <p>Er fod staff ychwanegol wedi eu rhoi mewn lle i gynnal y rota, dydi'r strwythur cyllidol heb gael ei ddiweddarau i gyd fynd ar hyd y blynyddoedd, ac felly mae gorwariant ar gyllideb staffio y ddau gartref yn flynyddol.</p> <p>Gyda £35,070 ar gyfer penodi is reolwr preswyl yng nghartref Tan Y Marian.</p>	160,070

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 14	Ffioedd Safonol Preswyl a Nyrsio (Cartrefi Annibynnol)	<p>Mae gwaith ar y gweill i ystyried os yw'r ffioedd safonol ar gyfer comisiynu gofal Preswyl a Nyrsio yn adlewyrchu'r gwir gost o ddarparu gofal.</p> <p>Mae'r gwaith yma ar lefel cenedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Fel rhanbarth gogledd Cymru mae grŵp tasg wedi ei sefydlu, ac un o'r ymarferiadau sydd wedi digwydd yn ddiweddar yw cymharu ein ffioedd safonol cyfredol gyda'r hyn sy'n cael ei awgrymu gan y 'Toolkit Laing & Buisson'. Mae'r gwahaniaeth ariannol fesul y 4 categori gofal sydd gennym yn sylweddol. Mae gwaith o gasglu tystiolaeth a chynnal trafodaethau gyda'r darparwyr lleol hefyd wedi cymryd lle ac angen ei ddatblygu ymhellach dros yr wythnosau nesaf. Byddwn angen cyfle i ystyried yr holl oblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhanddeiliaid eraill cyn dod i gasgliad terfynol ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p> <p>Mae'r swm yn amcan o'r gost ychwanegol fyddai angen arnom fel awdurdod pe byddem yn cynyddu ein ffioedd safonol i'r lefelau sy'n cael eu hawgrymu gan y 'Toolkit' diweddaraf a'r dystiolaeth gan ein darparwyr lleol. Mae'r amcan hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr incwm sy'n cael ei gasglu gan unigolion sy'n gallu cyfrannu / talu am eu gofal.</p>	2,695,000
Bid 15	Cytundebau Staff Achlysurol	<p>Mae'r staff achlysurol yn gweithio oriau cyson ac am gyfnodau di-dor felly gellir eu gweld yn angenrheidiol i'r gwasanaeth.</p> <p>Dymuniad y gwasanaeth yw cynnig cytundebau oriau amrywiol ond parhaol i'r staff yma.</p> <p>Mae annhegwch i'r cyflogau a delir, er yn cyfrannu'n gyfartal i'r gwasanaeth fel aelod staff parhaol ond eu bod ar y cyflog isaf ac ddim cyfle i godi oherwydd eu statws.</p> <p>Mae angen am 70 aelod staff ychwanegol i'r strwythur cartrefi, ar gyfartaledd 5 i bob cartref a Bryn Blodau yn uwch gan ei fod yn gartref mwy.</p>	125,000
Bid 16	Anghenion staffio uned gofal dementia ychwanegol a gofal mwy dwys yng nghartref preswyl Plas Hedd, Bangor	<p>Datblygwyd un Uned Dementia ym Mhlas Hedd ac erbyn hyn mae buddsoddiad yn cael ei wneud i addasu uned arall o 7 gwely. Mae'r bid hwn ar gyfer staffio yr uned ychwanegol ar gyfer dyblu'r ddarpariaeth gofal dementia yn y cartref.</p> <p>Mae'r uned dementia yn llawn yn gyson ac ers rhai misoedd mae'r rhestr aros ar gyfer gwelyau yr uned wedi bod yn fwy na'r nifer o welyau sydd yn yr Uned. Ar un adeg roedd 12 o unigolion yn aros am y math yma o ddarpariaeth gofal yn yr ardal leol. Dros yr un cyfnod mae hyd at 7 o welyau preswyl arferol wedi bod yn wag ar brydiau a neb wedi bod ar y rhestr aros ar gyfer eu lleoli ynddynt.</p>	70,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

AMGYLCHEDD			
Bid 17	Adnoddau staffio Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd	Nid yw'r 3 gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn y drefn 'haenau rheolaethol' gan nad oes Arweinyddion Tîm i gefnogi'r rheolwyr. Felly, mae gormod o bwysau dydd i ddydd ar y Rheolwyr Gwasanaeth gydag oddeutu 14 swyddogion yn gofyn am arweiniad. Bydd disodli 6 swydd Swyddog GyC gyda 6 swydd Arweinydd Tîm (2 ar gyfer pob gwasanaeth) nid yn unig yn sicrhau bod rheolwyr gyda'r capasiti i reoli ond hefyd sicrhau bod strwythurau'n cael eu sefydlu i gyd-fynd ag egwyddorion haenau rheolaethol.	16,860
Bid 18	Uwch Swyddog Gweithredol	<p>Mae'r adran gyda rôl allweddol neu'n arwain mewn sawl maes gwaith sydd yn bwysig yn gorfforaethol, megis Tai Haf, cydbwyllgorau, gwasanaeth profi, olrhain a diogelu. Yn ogystal, mae mwy o gyfrifoldeb ar yr adran y dyddiau hyn mewn perthynas â'r gyfundrefn rheoli perfformiad a bydd angen cefnogaeth i weithredu'r drefn a sicrhau bod popeth, gan gynnwys y gofrestr risg, yn cael eu cadw'n gyfredol.</p> <p>Rydym wedi adnabod yr angen am gefnogaeth ychwanegol ar yr Uned Reoli er mwyn medru cwrdd â'r gofynion sydd arnom mewn perthynas â materion adrannol a chorfforaethol.</p> <p>Byddai apwyntio Uwch Swyddog Gweithredol i weithio ar y cyd â'r Pennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn cyfarch y bwlch ac yn sicrhau trosolwg mwy effeithiol o'n gweithrediadau ddydd i ddydd.</p>	55,850

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

ECONOMI A CHYMUNED			
Bid 19	Amgueddfa Lloyd George	<p>Dyfodol Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George yn parhau'n ansicr ers i'r gyllideb a dderbynnir gan y Cyngor gael ei thorri o £27k yn sgil 'Her Gwynedd'.</p> <p>Mae materion cyfraith elusennol yn ei gwneud yn anodd iawn trosglwyddo neu gau'r amgueddfa oherwydd yr angen i sicrhau lles gorau'r elusen gan yr Ymddiriedolwyr (sef y Cabinet).</p> <p>Yr opsiwn a ffafirir yw i'r Cyngor barhau i redeg yr amgueddfa, ond i ddatblygu trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng yr elusen a'r Cyngor.</p> <p>Mae Achos Busnes wedi ei ddatblygu i barhau gyda rôl allweddol i'r Cyngor yn rhedeg y safle gyda chyfraniad o £20k y flwyddyn gan y Cyfeillion.</p>	27,000
Bid 20	Cynnal gwasanaeth i gefnogi busnesau / adfer a datblygu'r economi	<p>Byddai'r cais yn sefydlogi a dwysáu ymdrechion yr Adran i gefnogi busnesau lleol a datblygu'r economi drwy:</p> <p>a) Sicrhau cyllid parhaol i ariannu dwy swydd (Rheolwr Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel a Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig) sy'n allweddol i'n hymdrechion i wella'r economi er budd pobl Gwynedd.</p> <p>b) Sefydlogi a chynyddu gallu'r Cyngor i gefnogi busnesau lleol drwy, greu swydd ychwanegol o fewn Tîm Cefnogi Busnesau a chyllido swydd dros dro Cymhorthydd Cyfathrebu o fewn Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata'r Adran yn barhaol.</p>	139,570
TAI AC EIDDO			
Bid 21	Digartrefedd - costau ychwanegol llety dros dro	<p>Mae dros 500 o unigolion yn ddigartref, gyda dros 250 mewn llety dros dro megis llety gwely a brecwast neu westy. Ar gychwyn y pandemig fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiddymu'r gofyn am 'flaenoriaeth angen' ac mae'n bellach yn ofynnol i ni gartrefu pawb gan sicrhau nad oes unigolion yn cysgu ar y stryd. Mae'r gofyn hyn yn debygol o barhau.</p> <p>Rhagwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, derbyniad Grant Caledi gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfarch costau llety dros dro ar gyfer y digartref. Mae risg y bydd y grant yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fe fydd y gyllideb ychwanegol yn ein galluogi i barhau i gwrdd â'n dyletswydd statudol i gartrefu unrhyw un sy'n cyflwyno'n ddigartref.</p>	358,560
Bid 22	Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai	<p>Creu 4 swydd ychwanegol i'r Uned Atebion Tai er mwyn gallu ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau digartrefedd, a hynny am gyfnod dros dro o ddwy flynedd.</p> <p>Nid yw niferoedd swyddogion y Tîm Atebion Tai wedi newid i gyfarch y gwaith ychwanegol yn sgil cynnydd yn nifer cyfeiriadau, ac felly nid yw'r Uned ar hyn o bryd yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol.</p>	100,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL			
Bid 23	Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn	Cabinet yn ei gyfarfod ar 27/07/21 eisoes wedi cymeradwyo'r GDMC a'r angen i ariannu 2 Warden Gorfodaeth Stryd (Rheoli Cŵn). Fydd nid yn unig yn canolbwyntio ar GDMC ond hefyd gyda phwyslais cryf ar godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.	75,620
Bid 24	Gangiau Ardal	Fel rhan o waith ymgynghori cychwynnol Ardal Ni 2035, mae sawl sylw wedi ei dderbyn am weld gwellhad yn edrychiad ein strydoedd. Bwriad y cais yw ariannu gangiau ardal a fydd yn ymateb i'r gwaith glanhau, "seidio", chwynnu ac ymateb i waith brys gan ychwanegu gwerth gweledol yn ein hardaloedd/cymuned.	507,910
Bid 25	Newid trefniadau lechyd a Diogelwch - Casglu Gwastraff	Newidiadau i drefn gwaith y Gwasanaeth Casglu Gwastraff a gytunwyd drwy gytundeb torfol. Un o amodau'r cytundeb oedd i'r Gwasanaeth ail-arfarnu swyddi o fewn y tîm casglu. Mae'r gwaith hwn bellach wedi ei gyflawni gyda'r angen i ail-arfarnu rhai swyddi. Trwy ail-arfarnu'r swyddi hyn, bydd gwell trefn a dealltwriaeth o gyfrifoldebau a dyletswyddau'r tîm, sydd am weld gwelliant yn y gwasanaeth.	342,000
Bid 26	Clwyf Gwywiad yr Onnen (Ash Dieback)	Adran eisoes wedi derbyn bidiau un tro yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn ymateb i'r afiechyd, ond byddai'r arian parhaol yn caniatáu'r Adran i barhau i baratoi rhaglen o dorri a thocio coed a'u hadnabuwyd yn beryglus yn dilyn archwiliadau gan archwilwyr arbenigol.	100,000
Bid 27	Tariff Tanwydd Coch	Yn sgil newid deddfwriaethol, o Ebrill 2022 ni all y Cyngor ddefnyddio tariff tanwydd coch a bydd rhaid defnyddio tanwydd gyda thariff llawn.	65,000
CYLLID A THECHNOLEG GWYBODAETH			
Bid 28	Adnewyddu Cytundeb Meddalwedd Microsoft	Cytundeb gyda'r darparwr yn dod i ben diwedd Mehefin 2022. Mae'r cytundeb yn cael ei gytuno rhwng Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Microsoft, felly nid oes lle i'r Cyngor ddylanwadu ar y prisiau. Hefyd, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y defnyddwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Cyngor, gyda'r niferoedd yn codi o 2,390 yn 2017/18 i 2,711 erbyn hyn. Rhagwelir fydd y cynnydd rhwng £215k a £332k y flwyddyn.	332,000
CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL			6,732,590